



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI348

Amseru: Rheolaidd

Teitl: Y cytundeb ar gyfer darpariaeth Gwasanaeth Ôl-drafod a Chyflafareddu ar gyfer Pobl Ifainc Coll

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:

Tra bod cyfweiliadau dychwelyd annibynnol ar gyfer Pobl Ifainc sydd wedi mynd ar goll yn ofyniad statudol yn Lloegr, ar hyn o bryd, nid yw hyn yn ofynnol yn ôl Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan. Fodd bynnag, maent yn cael eu hadnabod fel arfer gorau ac mae argymhellion o adroddiadau megis Colli'r Pwynt gan Wasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas y Plant yn 2020 yn galw ar iddynt gael eu gwneud yn statudol. Mae perygl uwch y bydd pobl ifainc sy'n mynd ar goll yn rheolaidd yn dioddef cam-drin corfforol a rhywiol, cael eu tynnu i mewn i droseddolrwydd, digartrefedd, afiechyd meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau, a chamfanteisio, gan gynnwys camfanteisio rhywiol, camfanteisio gan gangiau, a meithrin perthynas amhriodol.

Hysbysebwyd y cyfle tendr ar 'Gwerthwch i Gymru' drwy'r cyfnodolyn swyddogol gan fod gwerth y cytundeb dros y trothwy tendr. Gan hynny, roedd angen tendr y Gwasanaeth Canfod Tendr. Cyflwynwyd a derbyniwyd ymatebion tendr yn electronig a chawsant eu gwerthuso drwy gydymffurfio â deddfwriaeth gaffael. Ar ôl cwblhau'r broses tendr, cyflwynodd un cwmni ymateb. O ganlyniad i gwblhau gwerthusiad cydymffurfio, arddangosodd Llamau eu bod yn cynnig datrysiad â mantais economaidd a thechnolegol gydymffurfio, a nhw hefyd oedd y darparwr presennol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Argymhelliad:

Cymeradwyodd CHTh yr argymhelliad bod y cytundeb ar gyfer y Gwasanaeth Ôl-drafod a Chyflafareddu ar gyfer Pobl Ifainc Coll yn cael ei roi i Llamau am gyfnod o dair (3) blynedd, gyda hyd at ddau (2) gyfnod estyniad blynyddol. Y cyfanswm cost ar gyfer y ddarpariaeth dros y cyfnod tair blynyddol cychwynnol yw £360,000. Noder: Dyrannwyd rheoli newid er mwyn mynd i'r afael â chynnydd y llywodraeth mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a gyhoeddwyd ar ôl i gyllidebau gael eu cynnig o fewn y tendr hwn. Mae hyn yn cynyddu'r gyllideb flynyddol i ychydig dros £124,000 gyda'r cyfanswm dros y cyfnod tair blynedd gychwynnol yn £374,245. Bydd cost y gwasanaeth yn cael ei chynnwys yng nghyllideb Gomisiynu SCHTh.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:



Dyddiad: 28/10/2024